
# Prosbectws ~Ysgol Y Gwernant ~ Prospectus




**"Gwreiddiau i dyfu. Iaith i'w thrysori ~ Roots to grow. Language to treasure"**



Croeso i Ysgol y Gwernant. Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein prosbectws yr ysgol. Sefydlwyd yr ysgol yn 2005 o ganlyniad i'r gofyn cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn nhref Llangollen. Ers hynny mae'r ysgol wedi cynyddu mewn rhifau yn flynyddol yn dilyn ei llwyddiant. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 184 o ddisgyblion.

Rydym yn ddigon ffodus i fanteisio ar ysgol mewn lleoliad hyfryd yma yn Llangollen. Ymfalchïwn yng nghyraeddiadau safon uchel yr ysgol ac yr ystod eang o gefnogaeth a darpariaeth a gynigir i bob plentyn. Gallwn gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol er mwyn cyfoethogi a datblygu profiadau'r plant.

Mae Ysgol y Gwernant yn amgylchedd ddiogel a hapus sy'n sicrhau fod holl agweddau o'n hetifeddiaeth a diwylliant Cymreig yn cael eu hamddiffyn a'u hannog yng nghymuned Llangollen.

Gobeithiwn i chi fwynhau darganfod mwy am yr ysgol trwy'r prosbectws a gwahoddwn i chi ymweld neu gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg.

Welcome to Ysgol y Gwernant. It gives me great pleasure to present our school Prospectus. The school was established in 2005 as a result of the increased demand for Welsh medium education in Llangollen. Since then it has grown every year as it continues to deliver great results. The school currently has 184 pupils. We are most fortunate to have a school in a beautiful setting here in Llangollen. We take pride in the school's high standard of achievement and the wide range of support and provision that is offered to each and every child. We are able to offer a wide range of extra-curricular activities to enrich and develop children's experiences. Ysgol y Gwernant is a safe and happy environment that ensures all aspects of our Welsh heritage and culture is safeguarded within the community of Llangollen.

We hope you enjoy finding out more about the school throughout this prospectus and invite you to visit or contact the school at any time.

**Gwyndaf Davies**
**Pennaeth / Headteacher**



**ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL:**

Ysgol Gymraeg y Gwernant
Pengwern
Llangollen
LL20 8AR

**Rhif Ffôn** : 01978 861986
**E-bost:**ysgol.gwernant@denbighshire.gov.uk
**Gwefan yr ysgol:** www.ysgolygwernant.co.uk
**Trydar :** @YGwernant

**Cadeirydd y Llywodraethwyr :**
Yr Athro Jethro Newton

Arddangosir enwau'r staff ar hysbysfwrdd y cyntedd ac ar wefan yr ysgol.
Mae cofnodion pwyllgorau'r Llywodraethwyr ar gael yn y swyddfa.

**MATH O YSGOL**

Ysgol Gynradd Gymraeg Gymunedol 3-11oed
Categori Iaith Gymraeg: 1

**NIFER AR Y GOFRESTR YN LLAWN AMSER : 156** (Medi 2024)

**SCHOOL NAME AND ADDRESS:**

Ysgol Gymraeg y Gwernant
Pengwern
Llangollen
LL20 8AR

**Phone:** 01978 861986
**E-mail:** ysgol.gwernant@denbighshire.gov.uk
**School website :** www.ysgolygwernant.co.uk
**Twitter:** @YGwernant

**Chair of Governors :**
Professor Jethro Newton

Staff details are displayed in the school's main entrance and on the school's website.
Minutes of Governors' meetings are available in the school office.

**TYPE OF SCHOOL**

Community Welsh Primary School 3-11 years of age.
Welsh language category: 1

**NUMBER ON ROLL FULL TIME :** 156 (September 2024)

**Ein Gweledigaeth**

Ein gweledigaeth yw i gynnig Addysg Gymraeg o'r safon uchaf i Langollen a'r ardal gyfagos. Drwy hyn, byddwn yn datblygu aelodau o'r gymuned fydd yn hapus, hyderus ac yn ddwyieithog.

**Ein Gwerthoedd**

Hapusrwydd
Iaith a Diwylliant
Cymreig Gwneud ein
gorau
Bod yn annibynnol
Tyfu'n iach a
diogel
Parchu'r Gymuned a'r Amgylchedd

**Ein Amcanion yw:**

I sicrhau fod pob plentyn yn hapus ac yn parchu ei gilydd
I sicrhau fod pob plentyn yn datblygu i'w lawn botensial
I sicrhau fod pob plentyn yn parchu Cymreictod ac yn gallu siarad Cymraeg
I sicrhau fod pob plentyn yn datblygu i fod yn unigolyn hyderus ac annibynnol
I sichrau fod pob plentyn yn datblygu'r sgiliau hanfodol i ymdrechu a llwyddo
I drin pawb yn gyfartal
I sicrhau fod pob plentyn yn deall y pwysigrwydd o gadw'n iach a diogel

I sicrhau fod pob plentyn yn parchu ein byd gwerthfawr a'r gymuned y maent yn byw ynddi



**Our Vision**

Our vision is to provide the highest standard of Welsh Medium Education in Llangollen and the surrounding area. This will develop happy, confident and bilingual members of the community



**Our Values**

Happiness
Welsh Language and Culture
Doing our best
Being independent
Respect the
community and
Environment

**Our aims are :**

Ensure that every child is happy and respect each other
Ensure each child achieves their full potential
Ensure that each child respects the Welsh culture and can speak Welsh fluently
Ensure that each child develops into a confident and independent individual.
Ensure that every child tries their best and succeeds
To treat everyone equally
To ensure that every child understands the importance of being healthy and staying safe
Ensure that every child respects our planet and their community



**Deall safle'r ysgol**

Mae adeilad yr ysgol wedi ei gysylltu gydag ysgol cyfrwng Saesneg drws nesaf, Ysgol Bryn Collen. Er fod y ddwy ysgol yn ddiffiniedig, mae rhai ardaloedd a rennir, megis y neuadd a'r iard chwarae. Agorwyd yr ysgol yn 2005 ac adeiladwyd dosbarthiadau ychwanegol yn 2011. Mae'r dosbarthiadau yn lliwgar a deniadol gydag ardaloedd dysgu ymarferol wedi eu darparu gydag adnoddau ar gyfer Crefft, Dylunio a Thechnoleg, Cerddoriaeth a Llyfrgell. Mae gan y neuadd offer ar gyfer Addysg Gorfforol, Drama, Cerddoriaeth a Symudiad, ac yn cynnal cynyrchiadau ysgol a gwasanaethau ysgol.

Mae gan yr ysgol hefyd ardal Uned Dysgu Sylfaen hyfryd, gydag ardal wlyb ar gyfer celf a chrefft a gardd ysgol ddeniadol iawn er mwyn i blant ddysgu am yr awyr agored a chreaduriaid byw. Mae'r cyfleusterau allanol yn cynnwys iardiau chwarae ar wahân i fabanod a phlant hŷn ynghyd ag ardaloedd dringo ac antur a chaeau chwarae mawr i blant fwynhau.

**Adnoddau TGCh**

Mae'r ysgol wedi ei rwydweithio'n llawn fel bod mynediad i DGCh trwy'r ysgol. Mae Cliniaduron,Ipads ac offer codio ar gael ynghyd ag addysgu rhyngweithiol. Defnyddir yr adnoddau dysgu a'r gliniaduron hyn gan ddisgyblion fel cymhorthion astudio. Ymfalchïwn yn y ffaith ein bod yn arloesol yn y defnydd o dechnolegau newydd wrth ddefnyddio'r dulliau traddodiadol gorau o addysgu.

**Trefniadaeth**

Blwyddyn yma mae pob dosbarth yn ein Uned Dysgu Sylfaen mewn blynyddoedd sengl. Yn ein Adran Iau mae blwyddyn 3 yn ddosbarth sengl ond mae blwyddyn 4,5 a 6 yn dau ddosbarth cymysg. Athro'r dosbarth sy'n gyfrifol am gynllunio a dysgu'r cwricwlwm o fewn y dosbarth. Mae gan athrawon o fewn yr ysgol amryw o arbenigedd, felly mae cynllunio tîm a pherthnasau gweithio agos rhwng athrawon a staff o fewn yr ysgol yn sicrhau dull cyson ar draws y cwricwlwm. O fewn y dosbarth, defnyddia athrawon amryw o arddulliau grwpio, yn ddibynnol ar y pwnc. Bydd hyn yn sicrhau'r ddarpariaeth orau i ddisgyblion o bob gallu. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau cyfeillgarwch, cymysg a galluoedd.






**Understanding the School site**
The school building is attached to the neighbouring English medium school, Ysgol Bryn Collen. Although both schools are defined, there are shared areas such as the hall and playground. The school was opened in 2005 with additional classrooms built in 2011. The classrooms are colourful and attractive with practical teaching areas that are equipped with resources for Craft, Design and Technology, Music and a Library. The hall has apparatus for PE, Drama, Music and Movement, and holds school productions and school assemblies. The school also has a lovely Foundation Unit area, with wet area for arts and crafts and a very attractive school garden where the children can learn about the outdoors and living creatures. Outside facilities comprise of separate Infant and Junior playgrounds along with climbing and adventure areas and large playing field for the children to enjoy.

**ICT Resources**
The school is fully networked so ICT can be accessed by all throughout the school. There are laptops, Ipads and coding equipment available along with interactive teaching aids. These learning resources and laptops are used by students as study aids. We pride ourselves in being innovative in the use of new technologies whilst using the best of traditional methods of teaching.

**Organisation**
This year all classes in our Foundation Unit are taught in single year groups. In our Junior Section year is taught in a single year group however year 4,5 and 6 are mixed into two classes.
The class teacher is responsible for planning and teaching the curriculum within the classroom. Teachers within the school have various forms of expertise, therefore team planning and close working relationships between teachers and staff within the school ensures a consistent approach across the curriculum. Within classrooms, the teachers will use a range of grouping styles, depending on subject. This will ensure the best provision for pupils of all abilities. These will include friendship, mixed and ability groups.



**Athrawon a Staff**

Ymdrechwn i ddarparu perthnasau cadarnhaol gyda phob disgybl a gweithiwn yn galed i ddatblygu dulliau addysgiadol pwrpasol i bob unigolyn. Mae Ysgol y Gwernant yn ymfalchïo yn ei systemau tracio a monitro, gan adnabod anghenion unigol y disgybl a darparu cefnogaeth ar unwaith. Mae'r ysgol yn ffodus o gael athrawon a staff cynorthwyol profiadol sy'n cynnig rhaglenni ar gyfer disgyblion gydag anghenion ychwanegol a hefyd i'n disgyblion mwy abl a thalentog. Bydd ein athrawon a staff yn ymdrechu i ddatblygu perthynas agos gyda rhieni, gyda pholisi drws agored yn annog cyfathrebu da.



**Teachers and Staff**

We strive to provide a positive relationship with each and every pupil and work hard to develop a bespoke educational approach to each individual. Ysgol y Gwernant prides itself in its tracking and monitoring systems, recognising pupils' individual needs and allocating support immediately. The school is fortunate in having experienced teachers and support staff who can offer programmes for pupils with additional learning needs and for our more able and talented pupils. Our teachers and staff will endeavour to develop a close relationship with parents, with an open-door policy encouraging good communication.

**Admissions**

The entry for children and young people into schools is controlled and administered by an “Admissions Authority”. Denbighshire County Council is the recognised Admissions Authority responsible for all the Community and Voluntary Controlled (VC schools in Denbighshire. The Denbighshire admission policy can be found on their website www.denbighshire.gov.uk

**The process for offering school places**

Denbighshire offers a single entry in September each year. We offer places for children in our part time Nursery class in the September following their 3rd birthday.
A school starter pack is available for prospective parents. Parents are also invited to visit the school to meet staff and ask any questions they might have. Please note:

•Expressing a preference at a chosen school does not guarantee a place
•Attending a Nursery class does not guarantee a place in the Reception class at the same school
•If a school is over-subscribed – even with applications made on time – then Denbighshire Country Council rank these according to their oversubscription criteria stated in the admission policy
•For all criteria, children who live nearest to the requested school will rank highest for places

**Home School Agreement**

The school has a ‘Home/School Agreement’ which notes what we expect in terms of parents/guardians and pupil engagement to support the school, as well as the school’s commitment to providing the best service for parents/ guardians and pupils.





**Derbyniad**

Mae mynediad plant a phobl ifanc i'r ysgol yn cael ei reoli a'i weinyddu gan "Awdurdod Derbyn". Cyngor Sir Ddinbych yw'r Awdurdod Derbyn cydnabyddedig sy'n gyfrifol am holl ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol yn Sir Ddinbych. Gellir dod o hyd i bolisi derbyn Sir Ddinbych ar eu gwefan www.denbighshire. gov.uk

**Y broses o gynnig lle mewn ysgol**

Mae Sir Ddinbych yn cynnig mynediad sengl ym mis Medi bob blwyddyn. Rydym yn cynnig llefydd i blant yn ein dosbarth Meithrin yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Mae pecyn cychwynnol ar gael i ddarpar rieni. Gwahoddir disgyblion hefyd i ymweld â'r ysgol i gyfarfod staff a gofyn unrhyw gwestiynau. Nodwch:

- Nid yw mynegi blaenoriaeth i ysgol ddewisedig yn gwarantu lle
- Nid yw mynychu dosbarth Meithrin yn gwarantu lle yn nosbarth Derbyn yn yr un ysgol
- Os yw ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau – hyd yn oed os yw'r ceisiadau wedi eu derbyn ar amser – bydd rhaid i ni restru'r rhain yn unol â meini prawf gorlenwi Sir Ddinbych a fynegwyd yn y polisi derbyn
- Ar gyfer yr holl feini prawf, bydd plant sy'n byw agosaf at yr ysgol o dan sylw yn cael eu gosod ar flaen y rhestr am lefydd.

**Cytundeb Cartref Ysgol**

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref/Ysgol' sy'n nodi'r hyn a ddisgwyliwn yn nhermau ymrwymiad rhieni a disgyblion wrth gefnogi'r ysgol, ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i ddarparu'r gwasanaeth orau i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion.



Royal Mail
KS66 LWN
DINBREN
THE JOLLY POCKET POSTMAN
THE JOLLY POSTMAN
or Other People's Letters
THE JOLLY POSTMAN
or Other People's Letters

**Yr Iaith Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg**

Mae Ysgol y Gwernant yn ysgol cyfrwng Cymraeg dynodedig. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a chaiff ei defnyddio ymhob agwedd o'r cwricwlwm. Er mwyn meistroli'r iaith o oedran ifanc, mae disgyblion blynyddoedd Cynnar yn cael eu "trochi'n" llawn yn yr iaith Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn ystod tymor cyntaf plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2 (oed 7-8). Disgwylir i ddisgyblion siarad Cymraeg bob amser a chynnal y traddodiad o amgylchedd Gymraeg yng nghymuned yr ysgol. Mae'n bolisi'r ysgol i sicrhau'r ehangiad o "Gymreictod" er mwyn galluogi ein plant i etifeddu diwylliant cyfoethog. Anogir rhieni sy'n siarad Cymraeg i siarad Cymraeg yn y cartref. Bydd hyn yn sicrhau rhuglder a hyder yn nefnydd yr iaith. Fodd bynnag mae'r mwyafrif o rieni yn siaradwyr Saesneg ac mae'r ysgol yn eu cefnogi trwy ddarparu gwaith cartref yn ddwyieithog. Nod yr ysgol yw cyflawni dwyieithrwydd cyflawn cyn trosglwyddo i'r sector uwchradd. Bydd disgyblion hefyd yn cyflawni safonau uchel yn yr iaith Saesneg ar yr un lefel ag unrhyw ddisgybl arall trwy'r wlad.

**The Welsh Language and the use of Welsh**

Ysgol y Gwernant is a designated Welsh medium school. Welsh is the official language of the school and it is used for every aspect of the curriculum. In order to master the language at a young age, the Early Years pupils (aged 3-5) are "immersed" completely in the Welsh language. English is introduced during the child's first term in Key Stage 2 (aged 7-8). Pupils are expected to speak Welsh at all times and to maintain the tradition of a Welsh environment in the school community. It is the school policy to ensure the enhancement of "Welshness" to enable our children to inherit a rich culture. Parents who are Welsh speakers are encouraged to speak Welsh at home. This will ensure fluency and confidence in the use of the language. The majority of the parents however are English speaking and the school supports them by providing homework bilingually. It is the aim of the school to achieve full bilingualism before transferring to the secondary sector. Pupils will also achieve high standards in the English language on par with any other primary school pupil throughout the country.



**Cyfleoedd Cyfartal**

Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, beth bynnag fo eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol y Gwernant credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

**Disgyblion ag Anableddau**

Yn Ysgol y Gwernant mae'r holl ddisgyblion yn cael eu trin fel unigolion ac ni fydd unrhyw ddisgybl yn cael eu trin yn fwy neu'n lai ffafriol na'u cyfoedion. Wrth gyfeirio at ofynion Deddf GSA 1995 mae ein Cynllun Hygyrchedd yn amlinellu'n glir y cynnydd sydd wedi ei wneud i ganiatáu mynediad cyflawn i ddisgyblion i holl ardaloedd cwricwlwm yr ysgol. Bydd yr ysgol yn derbyn holl ddisgyblion gydag anghenion addysgol y gellir ei bodloni gan yr adnoddau a ddarperir ac os na fydd eu derbyniad yn amharu'n ormodol ar anghenion disgyblion eraill. Cysylltwch â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon neu anghenion unigol.

**Anghenion Dysgu Y chwanegol**

Mae gan yr ysgol strwythur cefnogi i blant sy'n cael eu cydnabod gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cynnwys plant hynod o abl. Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (Cydlynydd ADY) yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i athrawon a rhieni o fewn yr ysgol. Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd adolygu cyson pan fydd rhaglenni dysgu ac ystyriaeth i'r angen am gymorth ychwanegol yn cymryd lle.

**Equal Opportunity**

The school has a Strategic Equality Plan that ensures equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers receiving services from the school, irrespective of disability, race, gender, age, sexual orientation, religion or belief, gender reassignment, pregnancy and maternity, marriage and civil partnership. We aim to develop a culture of inclusion and diversity in which all those connected to the school feel proud of their identity and are able to participate fully in school life. The achievement of pupils will be monitored and we will use this data to support pupils, raise standards and ensure inclusive teaching. We will tackle discrimination by the positive promotion of equality, challenging bullying and stereotypes and creating an environment which champions respect for all. At Ysgol y Gwernant we believe that diversity is a strength, which should be respected and celebrated by all those who learn, teach and visit here.

**Pupils with disabilities**

At Ysgol y Gwernant all pupils are treated as individuals and no pupil will be treated more or less favourably than their peers. In addressing the requirement of the Disability Discrimination Act 1995 our Accessibility Plan clearly outlines the progress made in allowing all pupils full access to all areas of the school curriculum.

The school will admit all pupils whose educational needs can be met from the resources provided to it and whose admission will not significantly detract from the needs of other pupils. Please do contact the school to discuss any individual concerns or requirements.

**Additional Learning Needs**

The school has a support structure for children identified as having Additional Learning Needs, including exceptionally able children.

Our School Additional Learning Needs Coordinator (ALNco) provides support and guidance to teachers and parents within the school. Progress is monitored through regular review meetings when learning programmes and consideration of the need for additional support takes place.

**Gwasanaethau Cynorthwyol**
Mae nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol o dro i dro. Mae'n bosib siarad gyda'r nyrs drwy ffonio 03000859719.
Gall yr ysgol gael mynediad at gymorth gan wasanaethau ychwanegol e.e. Therapydd lleferydd ac iaith, Seicolegydd Addysgol, Y Tîm Nam ar y Clyw, Cymorth Ymddygiad neu Gwnsela Ysgol os oes angen yn dilyn ymgynghoriad gyda rhieni.
Gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw anabledd corfforol a allai amharu ar ddatblygiad eu plentyn.

**Teithio i'r ysgol**
Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded, beicio neu rannu ceir wrth ddod a'u plant i'r ysgol. I hybu hyn mae'r ysgol yn rhan o ymgyrch "Living Streets" sy'n gwobrwyo ac yn tracio faint o'r blant sy'n cerdded a beicio i'r ysgol bob mis.
Gofynnwn am gydweithrediad pawb er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae Pwyllgor Eco'r Ysgol yn pwysleisio fod angen i rieni ystyried yr amgylchedd wrth feddwl am ffyrdd o deithio i'r ysgol. Nid oes caniatâd i rieni yrru trwy giatiau'r ysgol na pharcio ar y gylchfan na'r bae tacsi/bws wrth gasglu a danfon plant i'r ysgol.






**Support Services**
The school nurse visits the school from time to time. It is possible to talk to the nurse by phoning 03000859719.
The school is able to access the support of additional services e.g. Speech and Language Therapists, Educational Psychologist, the Hearing Impairment Team, Behaviour Support or School Counselling if needed following consultation with parents.
Parents are kindly requested to inform the school of any physical disability which may impair the development of their child.

**Travelling to school**
The school encourages parents to walk, cycle or car share when bringing their children to school. To promote this the school is part of the Living Streets initiative which rewards and tracks how many children walk or bike to school each month. We ask for everyone's co-operation in ensuring the children's safety. The school's Eco Committee stresses the need for parents to think of the environment when considering ways of travelling to school. Parents are not permitted to drive through the school gates or to park on the roundabout or taxi/bus bay at pick up and drop off times.

**Paratoi ar gyfer yr ysgol**

Rydym yn awyddus i sicrhau hapusrwydd eich plentyn yn ystod eu cyfnod yn Ysgol y Gwernant. Credwn fod amgylchedd hapus a meithringar yn caniatáu i blant ddatblygu i'w llawn potensial.

Dyma ychydig o arweiniad wrth baratoi ar gyfer yr ysgol:

- Gall fod yn fuddiol i'r plentyn drafod ymweliadau a dylai rhieni sgwrsio gyda nhw'n gyson.
- Gwylio a thrafod rhaglenni teledu gyda'ch gilydd – efallai gwylio rhaglenni Cyw ar S4C
- Cynyddu ymwybyddiaeth plant o rifau oherwydd gall hyn ehangu'r addysgu
- Gwneud defnydd o grwpiau Meithrin lleol fel y gallwch baratoi eich plentyn yn gymdeithasol ac ieithyddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
- Helpu eich plant gyda thasgau megis gwisgo, clymu carrai esgidiau, mynd i'r tŷ bach, defnyddio cyllell a fforc a chlirio
- Datblygu unrhyw weithgareddau sy'n annog sgwrs a hunanhyder
- Peidio defnyddio prif lythrennau e.e. Catrin nid CATRIN
- Dewch i'n gweld! Mae plant yn mwynhau gweld plant eraill mewn amgylcheddau hapus.

**Gwisg Ysgol**

Mae gwisg ysgol i fechgyn a merched.

Crys polo coch, unai gyda logo'r ysgol neu ddim. Siwmper neu gardigan wyrdd gyda logo'r ysgol. Trywsus neu sgert/binaffor lwyd.

Ar gyfer yr haf: ceir gwisgo trywsusau byr llwyd, ffrog gingham siec wyrdd gyda sanau gwyn (neu mae'r wisg uchod hefyd yn gymwys.






**Preparing for school**

We are eager to ensure your child's happiness whilst at Ysgol y Gwernant. We believe that a happy and nurturing environment allows a child to develop to their full potential.

Here are some guidance when preparing for school:

It may be helpful for the child to discuss visits and parents should converse with them regularly

Watch and discuss television programmes together – perhaps watching Cyw cartoons on S4C

Read to the children every day and to play with them discussing every day with activities

Increase children's awareness of numbers as this can enhance teaching

Make use of your local Nursery group so that you can prepare your child socially and linguistically for Welsh medium education

Help your child with tasks such as independently dressing, tying shoe laces, going to the toilet, the use of knife and fork and tidying up

Develop any activities which encourage conversation and self-confidence

Come and visit us! Children enjoy seeing other children in happy environments.

**School Uniform**

There is a school uniform for boys and girls.

Red polo shirt, either with or without school logo. Green jumper or cardigan with the school logo. Grey trousers or skirt/ pinafore.

For the summer: Grey shorts may be worn, green gingham check dress with white socks (or the above uniform also applies).

**Iechyd a Diogelwch**

Mae'r Llywodraethwyr yn monitro pob agwedd o Iechyd a Diogelwch yn Ysgol y Gwernant a chymrir pob gofal posib i sicrhau diogelwch y plant tra maent yn yr ysgol. Mae'r holl ddrysau'n cael eu cloi yn ystod y dydd ac nid yw plant yn cael gadael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os oes newid i'r trefniadau arferol, gofynnir i rieni hysbysu'r Pennaeth a dylid defnyddio'r brif fynedfa i gasglu'r plentyn mewn achos o'r fath.

Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Rhoddir cerdyn adnabod i ymwelwyr gan y Swyddog Gweinyddol. Os bydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o staff yna gofynnir iddynt adael campws yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir 'ymarferion tân' ac 'Argyfwng' yn dymhorol.

**Damweiniau / Argyfyngau**

Er gwaethaf ein gofal gorau bosib, mae damweiniau weithiau'n digwydd. Mae'r nifer ofynnol o staff wedi eu cymhwyso i gynnal cymorth cyntaf ac mae cyfleusterau cymorth cyntaf digonol yn yr ysgol. Mae mwyafrif o ddamweiniau'n rhai bychain ac yn cael eu trin gan y staff a bydd slip damweinau yn cael ei anfon adref gyda'r plentyn. Bydd rhieni'n cael eu hysbysu ymhob achos pe bai niwed i'r pen yn digwydd. Mewn achos o ddamwain difrifol, gwneir pob ymgais i gysylltu â chi. Os nad oes modd cysylltu, mae gan y Pennaeth neu Ddirprwy'r hawl, gan weithredu ar gyngor meddygol, i wneud popeth sy'n angenrheidiol.

**Absenoldebau**

Os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol hysbyswch yr ysgol drwy ffonio neu e-bostio yn egluro'r rheswm dros yr absenoldeb. Os nad oes neges wedi ei dderbyn gan yr ysgol erbyn 9:15yb, yna bydd yr ysgol yn cysylltu â chi. Mae cardiau apwyntiad ar gael o swyddfa'r ysgol ar gyfer unrhyw apwyntiadau awdurdodedig yn ystod y diwrnod ysgol, fodd bynnag mae hi'n hanfodol hysbysu'r ysgol o flaen llaw.
Os yw plentyn yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl salwch rhaid sicrhau eu bod yn ddigon iach i wneud hynny ac yn rhydd rhag unrhyw haint. Os oes amheuaeth gennych mae'r ysgol yn hapus i'ch cynghori.

Ni fydd unrhyw wyliau yn ystod y tymor yn cael ei awdurdodi. Fodd bynnag, mae gan y Pennaeth bwerau disgresiwn er mwyn gwarantu absenoldeb mewn sefyllfaoedd eithriadol

**Cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol**

Yn ystod y flwyddyn, mae achlysuron pan wahoddir rhieni i'r ysgol am drafodaeth gydag athro dosbarth eu plentyn ynglŷn â thargedau personol ac amcanion. Mae hi hefyd yn bwysig nodi fod croeso i rieni ymweld â 'r ysgol ar unrhyw amser i drafod addysg a lles eu plant, neu unrhyw broblemau sydd
ganddynt. Byddwch yn ymwybodol na allai athrawon adael eu dosbarthiadau yn ystod amser gwersi. Os hoffech siarad â ni, a fyddwch cystal â threfnu gyda ni o flaen llaw. Mae negeseuon ar yr app yn cael ei anfon i ddiweddaru rhieni am ddigwyddiadau yn yr ysgol yn ogystal â gwefan yr ysgol sy'n cynnwys holl ddyddiadau a digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd. Ein dymuniad i fod yn gwbl ddi-bapur felly helpwch ni i gyflawni hyn trwy ein diweddaru gyda'ch manylion cyswllt. Mae adroddiadau ysgrifenedig am gynnydd eich plentyn ar gael bob mis Gorffennaf.

**Cylch Meithrin**

Mae'r Cylch Meithrin yn rhedeg ar safle'r ysgol bob prynhawn rhwng 11.00yb a 3.00yp ar gyfer y plant sydd yn y dosbarth Meithrin yn y bore. Am fwy o fanylion cysylltwch a'r ysgol.

**Y Clwb Brecwast**

Mae'r clwb brecwast ar agor rhwng 7.45yb a 8.45yb i'r holl ddisgyblion yn neuadd yr ysgol. Mae yna gost o £1.50 os ydy eich plentyn yn dod rhwng 7.45yb a 8.15yb. Mae'r clwb am ddim rhwng 8.15yb a 8.45yb. Yn ystod y cyfnod hwn gall blant fwynhau brecwast iach gyda'u ffrindiau. Mae gweithgareddau chwarae hefyd ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r clwb brecwast yn boblogaidd iawn ac felly mae cofrestru'n gynnar drwy parentpay yn hanfodol i sicrhau lle.

**Clwb ar ôl Ysgol**

Mae clwb ar ôl ysgol yn agored i holl ddisgyblion Ysgol y Gwernant am gost. Dylai holl blant gofrestru o flaen llaw os ydynt am ddefnyddio'r clwb. Gellir cael manylion cyswllt y clwb gan ysgrifenyddes yr ysgol.



**Health and Safety**
The Governors monitor all aspects of Health and Safety at Ysgol y Gwernant and every possible care is taken to ensure children's safety whilst they are at the school. All doors are locked during the day and no child is allowed to leave the school early without permission. If there is a change to normal arrangements, the parents are requested to inform the Head Teacher and the main entrance should be used to pick up your child in this case.

Every visitor must visit the main entrance before gaining access to the school. Visitors are given an identification card by the Administrative Officer. If a visitor acts inappropriately towards a pupil or member of staff then they will be asked to leave the school campus immediately and the police informed if needed. The school has a burglar alarm system and fire and emergency drills are held each term.

**Accidents / Emergencies**
Despite our upmost care, accidents do sometimes occur. The required number of staff are qualified to carry out first aid and there are adequate first aid facilities at the school. The majority of accidents are minor ones and are dealt with by the staff and an accident slip will be sent home to parents. Parents will always be informed if a head injury has occurred. In the event of a serious accident, an attempt will be made to contact you. If you cannot be contacted, the Head Teacher or Deputy reserve the right, acting on medical advice, to do whatever is necessary.

**Absences**
If your child is absent from school please inform the school by telephone or email explaining the reason for the absence. If a message has not been received by the school by 9:15am, then the school will make contact with you.
Appointment cards are available from the school office regarding any authorised appointments during the school day, however it is essential that the school is informed beforehand.
A child returning to school after illness should clearly be fit to do so and free from infection. If in any doubt the school is happy to advise.
No authorisation will be given for holidays taken during term time.
However, the Head Teacher has discretionary powers to grant leave of absence in exceptional circumstances.

**Communication between home and school**
During the course of the year, there are scheduled occasions when parents are invited to school for a discussion with their child's class teacher about personal targets and goals. It is also important to note that parents are welcome to visit the school at any time to discuss their child's education and welfare, or any problems they may have. Could you please acknowledge the teacher's inability to leave their classes during lesson time. If you would like to talk to us, kindly make arrangements with us beforehand. Messages are sent via the school app to keep parents up to date with events at the school as well as the school website that includes all dates and events for the academic year. Our desire is to be totally paperless therefore please help us achieve this by keeping us up to date with your contact details. Written reports containing information on your child's progress are available every July.

**Cylch Meithrin**
The Cylch Meithrin is run on school site every afternoon between 11.00 am and 3.00pm for children who are in the nursery class in the mornings. For further information please contact the school.

**Breakfast Club**
The breakfast club is open daily between 7:45am and 8:45am for all pupils in the school hall. There is a cost of £1.50 per child if your child arrives between 7.45am and 8.15 am. The breakfast club is free between 8.15 am and 8.45am. During this time children are able to enjoy a healthy breakfast with their friends from both schools. Play activities are also available during this time. The breakfast club is very popular therefore early registration and booking is necessary via parentpay in order to ensure a place.

**After school club**
After school club is open to all pupils of Ysgol y Gwernant at a cost. All children must be registered in advance if they are to use the club. Contact details for the club can be obtained from the secretary at the school.




PIC•COLLAGE

## Cinio Ysgol am ddim

Mae gan bob plentyn yr hawl i bryd ysgol am ddim, hyd yn oed os nad ydynt yn gymwys i brydau ysgol am ddim.Mae prydau ysgol am ddim yn cael eu coginio ar y safle. Mae Sir Ddinbych yn ymroddedig i fwyta'n iach ac yn gweithio'n galed gydag ysgolion i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Nod yr ysgol yw darparu'r bwyd gorau bosib a helpu'r disgyblion i ddarganfod a mwynhau bwyd newydd a chyffrous er mwyn eu hannog i fyw bywyd iach ac actif. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chinio ysgol ac i lawr lwytho copi o'r fwydlen ymwelwch â www.denbighshrieschoolmeals.co.uk
Yn ogystal mae yna linc ar app a gwefan yr ysgol.

Gall plant ddod â phecyn byd iach. Ni ddylai plant ddod â chynhwysyddion gwydr ir ysgol. Caiff disgyblion eu goruchwylio yn ystod amser cinio.

## Ysgolion Iach

Mae'r ysgol wedi ennill y Marc Cenedlaethol mewn Ysgolion Iach. Fel ysgol ein nod yw darparu ein disgyblion gyda gwell ddealltwriaeth o'u hunain gan hyrwyddo agweddau o ddiet, glendid ac ymarfer corff.
Mae holl ddisgyblion iau â'r hawl i lefrith ysgol am ddim. Anogir disgyblion ddod â ffrwyth eu hunain i fwyta amser chwarae. Anogir disgyblion i yfed dŵr yn gyson drwy gydol y diwrnod ac mae poteli dŵr ar gael bob amser.

## Universal Free School Meals

Every child is entitled to a Universal Primary Free School meal, even if they are not eligible for free school meals.
School meals are cooked on the premises. Denbighshire is committed to healthy eating and is working hard with schools to promote the health and welfare of pupils. The school aims to deliver the best food possible and want to help our pupils discover and enjoy new and exciting foods that will encourage them to live a healthy and active life. For more information regarding school dinners and to download a copy of the menu please visit
www.denbighshrieschoolmeals.co.uk
There is also a link on the school app and website.

Children are also allowed to bring a healthy packed lunch. Children should not bring glass containers to school. The children are supervised during lunch times.

## Healthy Schools

The school has been awarded the National Award for Healthy School Awards. As a school we aim to give our pupils a greater understanding of themselves by promoting aspects of diet, hygiene and exercise.
All infant pupils are entitled to free school milk. Children are encouraged to bring their own fruit for playtime. Pupils are encouraged to drink water regularly throughout the day and water bottles are provided at all times.

**Cwricwlwm**

Ers mis Medi 2022, mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio i wireddu'r Pedwar diben sef datblygu eich plentyn/plant i ddod yn:-

• ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes,
• yn gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
• dinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd, ac
• unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Fel rhan o'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ymgysylltwyd gyda'r dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr drwy holiaduron. Nodwyd rhinweddau allweddol a fyddai'n sail i'n cwricwlwm a gweledigaeth yr ysgol. Ar hyn o bryd, rydym wedi cychwyn ar ein taith i wireddu'r weledigaeth ac mi fyddwn yn cynnwys barn yr holl rhanddeiliaid wrth werthuso a mireinio'r ddarpariaeth.

Yma yn Ysgol Y Gwernant, bydd eich plentyn yn dysgu drwy'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad sef - Celfyddydau mynegiannol, Iechyd a lles, Dyniaethau, Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu,Mathemateg a rhifedd a Gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys cyfrifiadureg)

. Yng nghlwm i'r chwe Maes Dysgu byddent yn dysgu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm hefyd yn ymdrin â:

• hawliau dynol
• amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
• profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle
• dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
• addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn.

Mae pob maes dysgu a phrofiad yn cynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig sy'n llywio dysgu plant o bob oed. Mae'r rhain yn helpu eich plentyn i feddwl am yr hyn y mae'n ei ddysgu a sut mae pynciau'n cysylltu gyda'i gilydd, gyda gwaith a gyda bywyd. Maen nhw hefyd yn helpu plant i wneud cynnydd bob blwyddyn wrth iddyn nhw feithrin eu sgiliau a dealltwriaeth.

Mae'r athrawon yn cynllunio yn ôl y datganiadau o'r hyn sydd yn bwysig ymhob Maes Dysgu a Phrofiad. Yn yr Uned Dysgu Sylfaen, rhown gyfle i'r plant ddysgu drwy chwarae mewn gwahanol ardaloedd dysgu. Addysgir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.Er mai Cymraeg yw'r brif iaith addysgu, cyflwynir Saesneg ym mlwyddyn 3 a defnyddir hwn wrth gasglu a chyflwyno gwybodaeth oddi fewn yr holl Feysydd Dysgu.

Gwnawn ein gorau i baratoi rhaglen o waith sy'n addas ar gyfer pob gallu a chyrhaeddiad gan anelu i sicrhau cysondeb, cynnydd a dilyniant ymhob agwedd o'r cwricwlwm. Gwneir hyn o fewn awyrgylch hapus a chadarnhaol sy'n hybu'r dysgu. Caiff y plant eu hannog i ddatblygu hunanhyder ac annibyniaeth wrth ddysgu sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.



**Curriculum**

Since September 2022, Ysgol y Gwernant has adopted the New Curriculum for Wales. The new curriculum is designed to realise the Four purposes of developing your child/children to become:-

• an ambitious, capable learner, who is ready to learn throughout their life,

• an enterprising, creative contributor, who is ready to play a full part in life and work • a principled, informed citizen, who is ready to play a role in Wales and the world, and

• a healthy, confident individual, who is ready to live a full life as a valuable member of society.

As part of the curriculum design process, we engaged with the learners, parents, staff and governors through questionnaires. Key qualities were identified which would form the basis of our curriculum and the school's vision. At the moment, we have started our journey to realise the vision and we will include the views of all stakeholders when evaluating and refining the provision.

Here at Ysgol y Gwernant, your child will learn through the six Areas of Learning and Experience namely - Expressive Arts, Health and well-being, Humanities, Languages, literacy and communication, Mathematics and numeracy and Science and technology (including computer science).

Linked to the six Learning Areas they would learn literacy, numeracy and digital skills across the curriculum. The curriculum also covers:

• human rights
• diversity and respect for differences
• experiences and skills for careers and the workplace
• learn about local, national and international contexts
• Relationships and Sexuality Education, which is appropriate in terms of the child's development.

Each area of learning and experience includes statements of what is important that guides the learning of children of all ages. These help your child to think about what they are learning and how subjects connect with each other, with work and with life. They also help children make progress each year as they build their skills and understanding.

The teachers plan according to the What matter's statements in each Area of Learning and Experience. In the Foundation Learning Unit, we give the children the opportunity to learn through play in the different learning areas throughout the medium of Welsh. Although Welsh is the main teaching language, English is introduced in year 3 and this is used when collecting and presenting information within all the Areas of Learning.

We do our best to prepare a program of work that is suitable for all abilities and attainments aiming to ensure consistency, progress and progression in every aspect of the curriculum. This is done within a happy and positive atmosphere which promotes learning. The children are encouraged to develop self-confidence and independence while learning skills in a variety of situations.

For KS 2 children homework is set every half term, in addition we ask the children to read regularly at home.



**Physical Education**

The school provides a stimulating and secure environment for pupils where they can aim to achieve general maturity and develop physical skills through healthy living. Activities offered provide pleasure as well as fulfilling creative and fitness needs. We teach and provide an opportunity to practise and improve those skills that are relevant to the activity. We also attempt to develop a social awareness along with a social training through individual expression. We aim to promote confidence through physical activity and to develop an awareness of the importance of health through exercise. Healthy food choices and learning about the body are all important aspects. Physical Education should be enjoyable so that pupils are interested and ready to participate in various activities. The school offers training in numerous activities including gymnastics, dance, games, swimming, athletics and adventure activities. All pupils throughout the school receive two hours of Physical Education lessons or outdoor activity. Key stage two pupils have the opportunity to be part of our weekly 'Adventure Afternoon'.

Ysgol y Gwernant also provide after school sports clubs for pupils, and the school sports teams compete regularly in various tournaments.

**Physical Education Uniform**

**Foundation Unit**

Sports shorts in black and red polo shirt.

Trainers will be required during the summer term

**Juniors**

Trainers, black shorts and red polo shirt.

Tracksuits may be worn outdoors.

Please mark your child's clothes clearly with his/her name, especially coats, pullovers/cardigans, Wellingtons and P.E. kits, as so many of them look alike. Earrings are not a recognised part of school dress and we prefer that they were not worn at all. If however they are worn, they should be studs.





**Addysg Gorfforol**
Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd sy’n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol a chadw’n iach. Darperir gweithgareddau sy’n rhoi mwynhad i’r disgyblion wrth ddiwallu eu anghenion creadigol a ffitrwydd. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar sgiliau sy’n berthnasol i’r gweithgaredd. Yr ydym hefyd yn ceisio datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol ynghyd â hyfforddiant cymdeithasol trwy fynegiant unigol. Ceisir hybu hyder trwy weithgaredd corfforol a chreu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd iechyd wrth ymarfer. Mae dewisiadau bwyd a dysgu am y corff yn elfennau pwysig hefyd. Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwynhad fel bydd y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol. Mae’r ysgol yn hyfforddi’r plant mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys gymnasteg, dawns, gemau, nofio, athletau a gweithgareddau antur.
Mae pob disgybl yn derbyn 2 awr o weithgareddau Corfforol yr wythnos. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn prynhawn o ‘Amser Antur’.
Mae yna gyfle i’r disgyblion fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol mewn clybiau chwaraeon ar ôl ysgol, ac mae timau chwaraeon yr ysgol yn cystadlu yn rheolaidd mewn twrnamentau amrywiol.

**Gwisg Addysg Gorfforol**

**Yr Uned Dysgu Sylfaen**

Trywsusau byr chwaraeon du a chrys polo coch.

Bydd angen treinyrs yn ystod tymor yr haf ac esgidiau glaw bob dydd Mercher.

**Yr Adran Iau**
Treinyrs, trywsus byr du a chrys polo coch. Caniateir tracwisgoedd tu allan. Marciwch ddillad eich plentyn yn glir gyda’i h/enw, yn arbennig cotiau, siwmperi/cardigan, esgidiau glaw a chit Addysg Gorfforol, gan fod cynifer ohonynt yn edrych yn debyg.
Nid yw clustdlysau yn rhan gydnabyddedig o’r wisg ysgol ac mae’n well gennym nad ydynt yn eu gwisgo. Fodd bynnag, pe gwisgid clustdlysau, dylent fod yn stydiau.

## Addysg Grefyddol ac Addoli Cyfunol

Mae gwasanaethau ysgol gyfan a gwersi Addysg Grefyddol yn agwedd bwysig ethos Ysgol y Gwernant. Mae'r agwedd grefyddol wedi ei gysylltu â phrofiadau'r plant yn eu bywydau bob dydd, gan bwysleisio ar agweddau allgarol a gofalgar crefydd. Mae'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnal yn y dosbarth hefyd yn agweddau pwysig er mwyn datblygu'r teimlad o gymuned. Addysgir plant am wahanol grefyddau gyda phwyslais ar Gristnogaeth. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant o wersi Addysg Grefyddol ac addoli cyfunol.

## Cerddoriaeth

Mae swm o arian wedi ei ddyrannu er mwyn cyfrannu tuag at gostau athrawon offerynnau peripatetig. Cynigir gwersi i ddisgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen ar amrywiaeth o wahanol offerynnau. Mae ffi yn daladwy am y gwersi yn unol â pholisi'r ysgol. Mae pob plentyn trwy'r ysgol yn cael cyfle i gymryd gwersi cerddoriaeth a chymryd rhan mewn amrywiaeth o berfformiadau trwy gydol y flwyddyn. Mae côr yr ysgol hefyd yn agored i ddisgyblion yng Bl 3,4,5 a 6, lle mae cyfle i berfformio yn y gymuned a chystadlaethau. Mae cyngherddau Nadolig a sioeau'n cael eu perfformio yn neuadd y dref, gan roi cyfle a phrofiad gwych i'r plant.

## Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartef yn cael ei osod fel prosiect bob hanner tymor i blant Bl 3,4,5 a 6 er mwyn ehangu astudiaethau dosbarth presennol. Mae hyn yn galluogi rhieni i ddod yn rhan o waith ysgol eu plentyn ac i atgyfnerthu perthynas cartref/ysgol ymhellach. Disgwylir i blant gwblhau'r tasgau wedi eu cyflwyno'n dda ac i gyflwyno eu gwaith erbyn yr amser dynodedig.
Nid oes gwaith cartref ar gyfer disgyblion ein Uned Dysgu Sylfaen ond disgwylir i'r plant ddarllen yn rheolaidd adref.

## RE and Collective Worship

The whole school assemblies and RE lessons are an important part of Ysgol y Gwernant's ethos. The religious aspect is linked to the children's own experiences in their everyday lives, emphasising religion's altruistic and caring aspects. The separate services held in the classroom are also an important part of developing a feeling of community. The children are taught about different religions with the emphasis on Christianity. Parents have the right to remove their children from Religious Education lessons and collective worship.

## Music

An allocated sum of money is budgeted to contribute towards the cost of peripatetic music teachers. Lessons are offered to all pupils from Year 3 onwards on a selection of instruments. A fee is payable for the lessons in accordance with the school's policy. Every child throughout the school is given an opportunity to receive music lessons and take part in various performances throughout the year. The school choir is also open to pupils in Yr 3,4,5 and 6, where an opportunity is given to perform in the community and competitions. Christmas concerts and shows are performed at the Town Hall, giving a wonderful opportunity and experience to the children.

## Homework

Homework will be set every half term for Yr 3,4,5 and 6 children to enhance current classroom studies. This enables parents to become involved in their child's school work and to further reinforce the school/home relationship. Pupils are expected to complete their tasks in a well-presented manner and to hand in their work by the appointed time. We do not set homework for Foundation Unit children however we do expect the children to read regularly at home.

**Asesiad**
Mae rhieni yn derbyn adroddiad ysgrifenedig blynyddol am gynnydd eu plentyn. Yn unol â Pholisi Asesiad yr Ysgol, caiff plant eu hasesu a thracio eu datblygiad yn gyson.

Roedd adroddiad diweddaraf Arolwg Estyn yn 2019 yn datgan:

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad ardderchog disgyblion yn llwyddiannus iawn. Elfen gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd mae'r holl staff yn ymrwymo'n hynod effeithiol i sicrhau lles disgyblion, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer holl gynghorau'r ysgol yn cyfrannu'n arbennig tuag at yr ethos teuluol, gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn ymfalchïo yn eu hysgol, ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o weithdrefnau sy'n hyrwyddo hyn yn ardderchog.

**Assessment**
Parents are given an annual written report on their child's progress. In accordance with the School Assessment Policy, the children are assessed and their development is tracked on a regular basis.

The latest Estyn Inspection report 2019 stated that:

The school is an extremely caring and friendly community that promotes the importance of pupils' excellent behaviour very successfully. A strong element of provision is the way in which all staff commit highly effectively to ensuring pupils' wellbeing, including their mental and physical health. Provision for all of the school's councils contributes exceptionally well towards the familial, caring and inclusive ethos. As a result, nearly all pupils feel safe, take pride in their school and show very positive attitudes towards their learning. The school provides a wide range of procedures that promote this excellently.

**Amddiffyn Plant**

Mae holl aelodau staff o fewn yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelwch ac amddiffyniad y plant sy'n mynychu. Os oes unrhyw bryderon ynglŷn ag esgeuluso neu gamdriniaeth corfforol, emosiynol neu rywiol yna, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Sir Ddinbych, mae gan staff ddyletswydd i roi gwybod am y mater i Gydlynydd Amddiffyn Plant yr Ysgol.
Gall gydlynydd yr ysgol ymgynghori gyda chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Oherwydd natur y cyhuddiadau efallai na fydd hi bob amser yn addas i drafod y mater gyda rhieni cyn gwneud cyfeiriad. Mae'r cyfrifoldeb hwnnw yn nwylo'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu.
Cydlynwyr Amddiffyn Plant yr ysgol yw Mr Gwyndaf Davies, Mrs Meinir Rees, Mrs Anna Rowlands a Mrs Eleri Jones. Y Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant yw Miss Wendy Shurrock.

**Plant mewn Gofal**

Yr aelod o staff sy'n gyfrifol am blant mewn gofal yw Mr Gwyndaf Davies.

**Polisi Gwrth-fwlio**

Mae gan bob aelod o'r ysgol yr hawl sylfaenol i gael eu parchu gan bawb a mwynhau bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw ffurf o fwlio yn annerbyniol. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymgais i sicrhau nad yw bwlio'n digwydd.

**Trefniadau Bugeiliol**

Mae'r cyfrifoldeb am ofal plant yn disgyn ar yr holl staff ond mae pob plentyn yn cael eu gosod yng ngofal penodol athro dosbarth. Wrth annog hunanddisgyblaeth a hunanbarch gobeithiwn y bydd pob plentyn yn dod yn aelod gwerthfawr o'r gymuned ac edrychwn am gymorth rhieni yn y mater hwn.

**Child Protection**

All members of staff within the school are responsible for the safety and protection of the children who attend. If there are any concerns regarding neglect or physical, emotional or sexual abuse then, under the Denbighshire's Child Protection Procedures, staff are duty bound to report the matter to the school's Child Protection Co-ordinator.
The school's co-ordinator may consult with professional colleagues as well as relevant agencies such as Health and Social Services. Due to the nature of the allegations, it may not always be appropriate to discuss matters with parents prior to making a referral. The responsibility lies with social services and the police.
The school's Child P rotection Co-ordinators are Mr Gwyndaf Davies, Mrs Meinir Rees, Mrs Anna Rowlands a Mrs Eleri Jones
The Governor responsible for Child Protection is Miss Wendy Shurrock.

**Children in Care**

The member of staff with responsibility for children in care is Mr Gwyndaf Davies

**Anti-Bullying Policy**

Every member of the school has a basic right to be respected by everyone and to enjoy a happy life at school. Any form of bullying is unacceptable. The school will make every attempt to ensure that bullying does not occur.

**Pastoral Arrangements**

Care of the children is the responsibility of all the staff but each child is placed in the specific care of a class teacher. By encouraging self-discipline and self-esteem we hope that each child will become a worthy member of the community and we look for parental support in this matter.

**Ymddygiad a Disgyblaeth Ysgol**

Bydd y Pennaeth a staff yn gwneud popeth sy'n bosib i greu bywyd ysgol hapus. Disgwyliwn agwedd gyfrifol ac ymddygiad priodol ac ystyriol gan ein disgyblion. Disgwylir i ddisgyblion ddangos parch tuag at athrawon a staff yr ysgol, cyd ddisgyblion, adeiladau'r ysgol ac offer yr ysgol. Arweiniad, yn hytrach na chosb, yw athroniaeth yr ysgol. Os nad yw disgybl yn ymateb, bydd breintiau'n cael eu tynnu. Bydd problemau disgyblaeth difrifol yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth, ac mewn sefyllfaoedd eithafol gofynnir i rieni ymweld â'r ysgol am adroddiad llawn. Defnyddia staff amrywiaeth o wobrau er mwyn hyrwyddo ymddygiad da ar draws yr ysgol. Mae copi o Bolisi Ymddygiad yr Ysgol ar gael ar wefan yr ysgol.

**Gweithgareddau Allgyrsiol**

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal ar ôl ysgol. Fel arfer, hysbysir rhieni am y gweithgareddau sydd ar gael ar ap yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon yn cynnwys pêl- droed, hoci, rownderi a chriced. Rydym yn cymryd rhan yng ngweithgareddau a chystadlaethau'r ardal a'r Urdd ac mae Mabolgampau'r Ysgol yn digwydd yn flynyddol. Cynhelir nifer o gyngherddau drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Cyngerdd Nadolig a Diolchgarwch. Mae cyfle i ddisgyblion ymuno â'r Urdd. Cynhelir Clwb yr Urdd yn flynyddol ac mae cyfleoedd i ymuno mewn cystadlaethau chwaraeon, llefaru, canu a celf a chrefft.

**Polisi Addysg Rhyw**

Yn ein byd newidiol, lle mae'r cyfryngau yn dylanwadu ar ymwybyddiaeth plant o ryw mae gennym gyfrifoldeb fel ysgol i ddatblygu ymwybyddiaeth plant mewn materion rhywiol mewn modd sensitif. Mae addysg rhyw yn rhan o'n maes dysgu Iechyd a Lles

**Behaviour and School Discipline**

The Head Teacher and staff will do everything possible to create a happy school life. We expect a responsible attitude and proper, thoughtful conduct from our pupils. Pupils will be expected to show respect towards school teachers and staff, fellow pupils, school buildings and school equipment. Guidance, rather than punishment, is the school's philosophy. If a pupil does not respond, privileges may be taken away. Serious disciplinary problems will be referred to the Head Teacher and in extreme circumstances parents will be asked to visit the school for a full report. Staff use a range of rewards to promote good behaviour throughout the school.
A copy of the school Behaviour Policy is available on the school website

**Extra-Curricular Activities**

The school has a variety of extra-curricular activities. These activities take place after school. Parents are usually informed via the school app of activities that are available. The school offers a variety of sports activities including football, hockey, netball, rounders and cricket. We take part in the area and Urdd sports activities and competitions, and a School Sports Day is held annually. Various concerts are held throughout the year including Christmas and Harvest. There is an opportunity for pupils to join the Urdd. The Urdd Club is held annually and there are opportunities to join in sport, reciting, singing, art and craft competitions.

**Sex Education Policy**

In our changing world, where the media influences our children's awareness of sex we have a responsibility as a school to develop the child's awareness of sexual matters in a sensitive manner. Sex education is part of our Health and Wellbeing area of learning.

**Polisi Cwynion**
Petaech yn anhapus am unrhyw agwedd o addysg gwricwlaidd neu fugeiliol eich plentyn cysylltwch â'r Pennaeth. Gellir delio gyda mwyafrif o broblemau yn yr ysgol. Os ydych dal yn anhapus gyda'r ffordd yr ymdrinnir â'r gŵyn, cysylltwch â Chadeirydd y Llywodraethwyr. Os teimla rhieni yn anfodlon gyda'r ffordd ymdrinnir gyda'u cwyn, yna gellir cysylltu â'r Awdurdod Lleol. Mae gweithdrefnau a pholisi cwyno swyddogol ar gael ar wefan yr ysgol.

**Polisi Talu**
Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn adnabod cyfraniad gwerthfawr mae ystod eang o weithgareddau ychwanegol, yn cynnwys ymweliadau tu allan i'r ysgol yn ei gael tuag at addysg disgybl. Gwneir cais am gyfraniadau gwirfoddol er mwyn cyllido ymweliadau addysgol fel y dynodir ym Mholisi Talu a Chostau. Fodd bynnag, os nad oes digon o arian wedi ei gasglu ar gyfer ymweliad ysgol, gallai hynny arwain at ohirio'r daith. Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod os yw rhiant yn bryderus am gostau yn ymwneud â'r ysgol.

**Gweithdrefnau Tywydd Drwg**
Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol yn agored. Defnyddir neges ar yr app neu gwefan er mwyn hysbysu rhieni o unrhyw achosion o gau'r ysgol. Yn achlysurol, bydd angen anfon y plant adref yn gynnar ond bydd yr ysgol yn ffonio cartref y plentyn yn gyntaf.

**Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau**
Mae'r ysgol yn annog rhieni i gymryd rhan weithgar yn y CRhAFf. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn Nhymor yr Hydref a threfnir rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae'r CRhA Ff yn defnyddio eu tudalen 'Facebook' i gysylltu â rhieni yn ogystal â negeseuon trwy ap yr ysgol.

**Trosglwyddo**
Mae perthynas dda'n bodoli rhwng ein hysgol a'r ysgolion uwchradd o fewn yr ardal. Mae Ysgol y Gwernant yn ysgol fwydo uniongyrchol i'r Uned Gymraeg yn Ysgol Dinas Bran, fodd bynnag gall plant hefyd dderbyn trafnidiaeth i Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam.





## Complaints Policy

If you are unhappy about any aspect of your child's education, curricular or pastoral care please contact the Head Teacher. Most problems can be dealt with in school. If you are still unhappy with the way the complaint is dealt with, please contact the Chair of Governors. If parents feel unsatisfied with the way your complaint is handled, then the Local Authority can be contacted. Formal complaints policy and procedures is available on the school website.

## Pay Policy

The school Governors recognise the valuable contribution that a wide range of additional activities, including out of school visits can make towards pupil's education. A request is made for voluntary contributions to cover costs for educational visits as stated in the school's Pay and Charging policy. However, should there be insufficient funds collected for a school visit, cancellation of the trip may follow. The school is always ready to discuss when a parent/ guardian is worried about costs relating to the school.

## Bad Weather Procedures

Every attempt is made to keep the school open. The school app and website will be used to inform parents of any closures. Occasionally, children will have to be sent home early but the school will phone the child's home first.

## Parents and Teachers Association

The school encourages parents to take an active role in the PTA. The annual meeting is held in the Autumn Term and a programme of activities is arranged for the coming year. The PTA uses their Facebook Page to communicate with parents as well as messages through the school app.

## Transition

A good relationship exists between our school and high schools within the area. Ysgol y Gwernant is a direct feeder school to the Welsh Unit at Ysgol Dinas Bran, however children may also be given transport to Ysgol Morgan Llwyd in Wrexham.

**Ac yn olaf....**

**Mae penderfynu ar Ysgol Gynradd ar gyfer eich plentyn yn benderfyniad pwysig. Deallwn hynny. Er mwyn eich helpu i wneud pethau'n haws byddwn yn fwy na pharod i'ch tywys o amgylch yr ysgol ac ateb unrhyw gwestiynau. Felly, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni gan y byddwn yn hapus i'ch helpu i wneud y penderfyniad cywir.**

**And finally....**

**Deciding on a Primary School for your child is a major decision. We understand. In order to help make it easier for you we would be delighted to show you around the school and to answer any questions. Please, get in touch as we would be happy to help you make the right Decision.**




**Ysgol y Gwernant**
**Pengwern**
**Llangollen**
**Sir Ddinbych**
**LL20 8AR**

01978 861986
**ysgol.gwernant@denbighshire.gov. uk**
**www.ysgolygwernant.co.uk**